Caiff yr RSPCA fwy na 7000 o alwadau ffôn bob blwyddyn ynglŷn ag achosion yn ymwneud â sbwriel.

Mae swyddogion yr RSPCA yn gorfod achub anifeiliaid yn rheolaidd, gan gynnwys anifeiliaid anwes sydd wedi'u hanafu gan boteli gwydr wedi torri, draenogod sydd wedi mynd yn sownd mewn caniau gwag ac adar sy'n tagu ar fandiau elastig.

Gellid rhwystro nifer o'r achosion hyn rhag digwydd pe bai pobl yn codi eu sbwriel eu hunain.



Mewn prosiect ymchwil gan Cadwch Gymru'n Daclus, gwelwyd bod 50% o drigolion Cymru yn daflwyr sbwriel gan eu bod yn cyfaddef eu bod wedi gollwng sbwriel yn hytrach na defnyddio bin o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn eu hymchwil, gwelsant fod mwy o bobl ifanc yn daflwyr sbwriel (16-34 oed) na phobl hŷn (55+)



Gall sbwriel ddenu a chynyddu nifer plâu, gan gynnwys llygod mawr sy'n bwydo ar y sbwriel.

Gall llygod mawr fod yn dda i fywyd gwyllt gan eu bod yn helpu i wasgaru hadau rhai planhigion, a hefyd yn ffynhonnell fwyd i rai ysglyfaethwyr fel tylluanod.

Ond, gall llygod mawr gario nifer o barasitiaid a chlefydau gwahanol a all effeithio ar iechyd pobl. Hefyd, maent yn bwyta mamaliaid bach, pryfed ac adar sy'n nythu ar y ddaear.



Gall gwastraff sydd wedi'i daflu'n anghyfreithlon bentyrru mewn afonydd. Yn ogystal ag effeithio ar y bywyd gwyllt, fe allai'r sbwriel gau rhannau o'r afon gan gynyddu'r perygl llifogydd mewn ambell ardal.

Yn 2011 symudodd Taclo Tipio Cymru fwy na thunnell o wastraff o afonydd Lleidi a Dafan yn Llanelli. Yn ogystal â sbwriel tŷ, cafodd eitemau fel matresi a hen feiciau eu symud o'r afonydd.



Pan fydd balwnau'n cael eu gollwng, byddant yn disgyn yn ôl i'r ddaear, un ai yn gyfan neu mewn darnau. Maent yn ychwanegu at y sbwriel ac maent yn beryglus i fywyd gwyllt sy'n meddwl eu bod yn fwyd. Ar ôl bwyta balŵn, gall flocio'r system dreulio a pheri i'r anifail lwgu. Hefyd mae'r cortyn yn gallu maglu a thrapio anifeiliaid. Pe baech yn gollwng darnau o falŵn ar lawr gallech gael dirwy am ollwng sbwriel, ond wrth eu gadael yn rhydd – ddim eu gollwng – nid ydynt yn cael eu cyfrif fel sbwriel dan y ddeddfwriaeth gyfredol!

